


Bupa Dental Care

GIG CYMRU NHS WALES

# Gwybodaeth practis

Yn Bupa Dental Care Ewloe, y claf sy'n dod gyntaf bob amser



# Croeso i Bupa Dental Care Ewloe

Rydym yma i'ch cefnogi ar eich taith i iechyd y geg well trwy driniaeth ddeintyddol a gofal claf o ansawdd uchel. Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod eich ymweliad â ni yn brofiad cadarnhaol, mae ein tîm cyfeillgar a phroffesiynol bob amser wrth law i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Yn fwy na hynny, rydym yn cwrdd â holl safonau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru mewn sterileiddio a rheoli traws-heintio, ac rydym yn cynnal ein hoffer i'r lefel uchaf.‡ I gael gwybod mwy am Bupa Dental Care, ewch i **www.bupadentalcare.co.uk**

## Ein gwasanaethau deintyddol

Yn Bupa Dental Care Ewloe rydym yn trin cleifion y GIG† a phreifat, gan gynnig ystod o driniaethau a gwasanaethau deintyddol. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i fodloni unrhyw gais am addasiadau rhesymol, ond os nad yw hyn yn bosibl byddwn yn eich cyfeirio at bractisau cyfagos a all ddiwallu eich anghenion. Gallai hyn fod yn cefnogi unrhyw anabledd dysgu, i gwrdd â'ch anghenion o ran golwg, clyw neu symudedd, niwroamrywiaeth, gofynion cyfieithu neu ddewisiadau diwylliannol, megis gofyn am glinigwr o rywedd penodol. Byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i fodloni'ch cais, ond efallai na fydd hyn yn bosibl bob amser. Gweler yr adran mynediad i'r anabl yn y daflen hon i gael mynediad yn y practis hwn.

†Mae argaeledd GIG yn amrywio o bractis i bractis ac mae'n gysylltiedig â chontractau unigol a sefydlwyd gyda'r GIG.

‡Gallwch ddarllen ein hadroddiad arolygu diweddaraf yn www.agic.org.uk

Rydym yn deall y gallech fod yn poeni am gael triniaeth ddeintyddol. Os felly, rhowch wybod i ni a bydd ein tîm profiadol yn gweithio gyda chi i leihau unrhyw bryder rydych chi'n ei deimlo.

## Gwarchodwragedd

Rydym yn darparu gwarchodwragedd fel mater o drefn ar gyfer y rhan fwyaf o driniaethau a ddarparwn. Os oes angen gwarchodwraig arnoch ar gyfer apwyntiad hylenydd deintyddol, rhowch wybod i ni ymlaen llaw.

## Cwyno

Os ydych chi'n anhapus â'n gwasanaeth, mae croeso i chi gysylltu â ni yn y practis. Gallwch hefyd siarad â Rheolwr y Practis krystle.mason@bupadentalcare.co.uk neu anfon e-bost atom yn **patient. complaints@bupadentalcare.co.uk**

Os ydych yn glaf yn y GIG ac mae gennych g  yn am eich triniaeth neu fynediad at ofal iechyd yng Nghymru, cysylltwch â'ch Bwrdd Iechyd Lleol: **www. wales.nhs.uk/ourservices/directory**

Os ydych chi'n glaf preifat, gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cwynion Deintyddol (DCS) dros y ffôn **020 8253 0800**, neu ymwelwch â **www.dcs.gdc-uk.org**

Gall cleifion y GIG a chleifion phreifat gysylltu â Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC): **www.agic.org.uk**



## Rydym yn cynnig

- **Deintyddiaeth GIG**
  Gall argaeledd fod yn gyfyngedig†
- **Deintyddiaeth breifat**
  Gwasanaeth cynhwysfawr gydag amseroedd apwyntiadau cyfleus
- **Gwasanaethau hylenydd**
  Am driniaeth ataliol
- **Deintyddiaeth gosmetig**
  Yn cynnwys coronau, pontydd ac argaenau
- **Gwynnu dannedd**
  - Gwynnu dannedd gartref
- **Orthodonteg**
  - Six Month Smiles®
  - CFast©



## Cwrdd â'n tîm

**Ar hyn o bryd mae ein tîm medrus yn cunnwys pump deintydd cyffredinols, un therapydd a dau hylenydds.** Ewch i'n gwefan am fywgraffiadau llawn.

**Sridevi Narayanan**
**Dentist**
Statutory Exam 2007
MFDS Royal College of Surgeons of Edinburgh 2005
BDS Tamil Nadu Dr. M.G.R Medical University 1997
Rhif CDC 119499
Dyddiad cofrestru: 18th October 2007

**Ivan Sasu**
**Dentist**
BDentSc University of Dublin 2016
Rhif CDC 294129
Dyddiad cofrestru: 4th April 2021

**Veselin Tulev**
**Dentist**
DDM Varna 2014
Rhif CDC 262485
Dyddiad cofrestru: 2nd March 2016

**Swathi Chintala**
**Dentist**
LDS Royal College of Surgeons of England 2017
BDS NTR University of Health Sciences 2013
Rhif CDC 274342
Dyddiad cofrestru: 6th November 2017

**Surya Panikkassery Joshi**
**Dentist**
Statutory Exam 2024
BDS Pondicherry University 2014
Registered under s36C of the Dentists Act 1984 2020
Rhif CDC 290528
Dyddiad cofrestru: 14th August 2020

**Lee Bardsley**
**Clinical Dental Technician**
Diploma Clinical Dental Technology University of Lancashire 2014
Verified experience in Dental Technology
Rhif CDC 157124
Dyddiad cofrestru: 6th August 2008

**Vara Obaiah**
**Dental Therapist**
Registered Under s36C of the Dentists Act 1984 2021
Rhif CDC 298700
Dyddiad cofrestru: 16th December 2021

**Gillian Fisher**
**Dental Hygienist**
Diploma in Dental Hygiene 1995
Rhif CDC 4824
Dyddiad cofrestru: 28th March 1995

**Penny Wills**
**Dental Hygienist**
BSc (Hons) Dental Therapy University of Liverpool 2023
Diploma in Dental Nursing Level 3 QCF City & Guilds 2013
Rhif CDC 253570
Dyddiad cofrestru: 24th September 2014

## Rolau yn y Tîm Deintyddol

### Deintydd

Mae'r rhan fwyaf o ddeintyddion yn gweithio fel ymarferwyr deintyddol cyffredinol (GDP), gan ddarparu gofal deintyddol i gleifion. Maen nhw'n arwain tîm y practis o ran gwneud diagnosis a datblygu cynlluniau triniaeth ac yn darparu triniaeth ddeintyddol i'w cleifion.

### Hylenydd Deintyddol

Bydd hylenydd deintyddol yn canolbwyntio ar atal a thrin clefyd y deintgig a phroblemau cysylltiedig. Byddant yn darparu triniaethau'n annibynnol neu dan atgyfeiriad gan ddeintydd, fel:

- Digennu dannedd (weithiau o dan anesthetig lleol)
- Sgleinio dannedd
- Defnyddio fflworid argroenol a selyddion holltau
- Darparu cyngor ac addysg iechyd y geg
- Cymryd pelydrau-X deintyddol ac argraffiadau o ddannedd os oes ganddynt y cymhwyster

### Therapydd Deintyddol

Bydd therapydd deintyddol yn gwneud gwaith deintyddol arferol yn annibynnol neu dan atgyfeiriad gan ddeintydd. Gallant gyflawni'r holl driniaethau a gynigir gan hylenydd deintyddol, yn ogystal â:

- Gwneud atgyweiriadau deintyddol arferol i ddannedd llaeth a dannedd parhaol
- Tynnu dannedd (dannedd llaeth)

### Nyrs Ddeintyddol

Mae nyrs ddeintyddol yn cynorthwyo'r tîm deintyddol cyfan i drin cleifion. Maent hefyd yn gyfrifol am ddadheintio a rheoli croes-heintio a sicrhau diogelwch cleifion yn y practis.

## Deintyddiaeth ataliol

**Rydym yn argymell yn gryf i chi ymweld â'ch deintydd a hylenydd Bupa Dental Care yn rheolaidd i gynnal dannedd a deintgig iach.**

**Os canfyddir problemau yn gynnar, gallwn eu trin cyn iddynt ddatblygu ymhellach a dod yn ddifrifol.**

## Ein hymrwymiad i chi.

**Byddwn:**

- Yn eich cynghori ar sut i gyflawni a chynnal dannedd a deintgig iach
- Yn rhoi dewis i chi o opsiynau triniaeth sydd ar gael
- Yn esbonio pam mae angen triniaeth a beth mae'n ei olygu
- Yn darparu cynllun triniaeth lawn ac amcangyfrif o'r costau i chi
- Yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall
- Yn darparu deintyddiaeth o ansawdd gan ddefnyddio offer modern a diogel
- Eich cynghori ar ba mor aml y dylech gael archwiliad yn seiliedig ar eich anghenion penodol

## Opsiynau talu

Mae taliad am driniaeth yn ddyledus ar ôl pob apwyntiad a gellir ei wneud arian parod neu'r mwyafrif o gardiau credyd mawr. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o opsiynau cyllid sy'n ei gwneud yn haws talu am gost triniaeth. Gofynnwch i'ch practis am ragor o fanylion.

**Cynllun Gwên Bupa: Cynllun talu misol syml sy'n cynnwys archwiliadau ac ymweliadau hylenydd a gostyngiad o 10% oddi ar rai triniaethau.**

**Rydym yn derbyn cwsmeriaid yswiriant Bupa**

Gofynnwch yn y dderbynfa os ydych angen rhagor o wybodaeth am dalu am eich triniaeth.

Ewch i'n gwefan am ragor o fanylion a'r Telerau ac Amodau: bupa.co.uk/dental/dental-care/ways-to-pay

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae practisau Bupa Dental Care wedi'u cofrestru ac yn cydymffurfio ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Am fwy o fanylion ffoniwch **0300 062 8163** neu ymwelwch â – **www.agic.org.uk**

**Rheolwr Practis Cofrestredig**
krystle.mason@bupadentalcare.co.uk

**Cyfarwyddwyr Bupa Dental Care:**
Mark Allan - Rheolwr Cyffredinol
Neil Sikka - Cyfarwyddwr Deintyddiaeth
Peter Crockard - Cyfarwyddwr Clinigol Rhanbarthol

## Archebu apwyntiadau

## Ffoniwch 01244 538301

**Gallwch drefnu apwyntiad gyda'n tîm y dderbynfa.**
**Rydym hefyd yn cynnig archebu ar-lein ar ein gwefan www.bupadentalcare.co.uk**

Bydd eich deintydd yn eich cynghori pryd mae angen eich archwiliad deintyddol nesaf. Mae'r cyfnod rhwng archwiliadau yn dibynnu ar ba mor iach yw eich dannedd a'ch deintgig a'ch risg o broblemau yn y dyfodol.

## Apwyntiadau brys

## Ffoniwch 01244 538301

**Ffoniwch ni os ydych angen triniaeth ddeintyddol frys. Pe bai argyfwng yn codi y tu allan i'n horiau agor, bydd ein gwasanaeth ateb yn eich cynghori o'r hyn y gallwch ei wneud i gael mynediad at driniaeth cyn gynted â phosibl.**

**Fel arall, am gyngor y tu allan i oriau'r GIG, ffoniwch 111 neu ewch i www.nhs.uk/nhs-services/dentists**

## Gwybodaeth personol

Rydym yn cydnabod pan fyddwch chi'n rhoi gwybodaeth bersonol i ni (sy'n cynnwys gwybodaeth iechyd) eich bod chi'n ymddiried yno ni i ofalu amdani. Gweler **bupa.co.uk/privacy** am ragor o wybodaeth am sut rydym yn casglu, defnyddio a gwarchod eich data

Os nad ydych chi eisiau derbyn marchnata am gynhyrchion a gwasanaethau Bupa y credwn sy'n berthnasol i chi, cysylltwch â ni ar **optmeout@bupa.com**

## Cansladau

Rydym yn deall y gall pethau godi'n annisgwyl, felly os oes angen ichi newid neu ganslo'ch apwyntiad, rhowch o leiaf 24 awr o rybudd i ni.

Mae hyn yn ein galluogi i gynnig amser eich apwyntiad i gleifion eraill, gan sicrhau y gallwn roi'r mynediad gorau posibl i'n cleifion at ofal deintyddol yn Bupa.

Mae'n bosibl y codir tâl am ganslo apwyntiadau preifat ar fyr rybudd.

## Dim goddefgarwch

Rydym yn gweithredu polisi dim cam-drin, yn gorfforol ac ar lafar tuag at unrhyw aelod o'n tîm. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i unrhyw glaf y canfyddir ei fod yn torri'r polisi hwn ddod o hyd i ofal deintyddol arall. Parchwch y tîm sy'n gofalu amdanoch.

## Mynediad i'r anabl

Rydym yn gallu cefnogi mynediad i'r practis, ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn a'r rhai sydd ag anghenion symudedd penodol. Cysylltwch â ni fel y gallwn sicrhau y gallwn gefnogi unrhyw anghenion anabledd cyn trefnu eich apwyntiad. Gwasanaethau dehongli ar gael ar gais.

## Parcio

Mae gennym barcio ar y safle a baeau anabl cyfyngedig

## Trafnidiaeth gyhoeddus

Mae arhasfan bws yn Ewloe gyferbyn â'r Swyddfa Bast. Rydym hefyd ar daith gerdded fer o'r orsaf reilffordd.

## Oriau agor

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 8.30yb i 5.30yh |
| Dydd Mawrth | 8.30yb i 5.30yh |
| Dydd Mercher | 8.30yb i 7.00yh |
| Dydd Iau | 8.30yb i 5.30yh |
| Dydd Gwener | 8.30yb i 5.30yh |
| Dydd Sadwrn | Ar gau |
| Dydd Sul | Ar gau |


**Bupa Dental Care Ewloe**

| | |
|---|---|
| **Ffoniwch** | **01244 538301** |
| **Gwe** | **ewloe@bupadentalcare.co.uk** |
| **Ymwelwch â** | **Unit 2 Lakeside Business Village, St David's Park, Ewloe, CH5 3XP** |



Bupa Dental Care yn enw masnachu Oasis Dental Care Limited. Wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr Rhif: 00478127.
Swyddfa gofrestredig: Bupa Dental Care, Vantage Office Park, Old Gloucester Road, Hambrook, Bristol, United Kingdom BS16 1GW.

DUK04492 | Tach24